CYPE(6)-02-21 - Papur i'w nodi 8

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
–
Health and Social Care Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
–
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Llywydd
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

16 Awst 2021

Annwyl Lywydd

Amserlen pwyllgor y Chweched Senedd

Diolch am eich llythyr ar 14 Gorffennaf 2021 ynghylch amserlen pwyllgor y Chweched Senedd. Gan fod y Pwyllgor Busnes yn bwriadu adolygu'r amserlen yn barhaus, rwy'n ysgrifennu i amlinellu barn gychwynnol aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Byddwn, wrth gwrs, yn fwy na pharod i ddarparu adborth pellach maes o law i lywio adolygiad y Pwyllgor Busnes.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Jayne Bryant AS.

Slotiau cyfarfod bob pythefnos ac 'wythnosau gwarchodedig'

Rydym yn bwriadu neilltuo peth amser yn gynnar yn yr hydref i ddatblygu ymagwedd strategol tuag at ein cylch gwaith; bydd hyn yn cynnwys ystyried sut y byddwn yn blaenoriaethu'r amser cyfarfod ffurfiol sydd ar gael inni. Serch hynny, mae gennym rai pryderon cychwynnol ynghylch effaith bosibl yr amserlen ar ein gallu i drefnu ein gwaith yn hyblyg, i symud yn gyflym, ac i weithio'n ystwyth i ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg neu ymgymryd â gweithgarwch sy'n hanfodol o ran amser.

Er enghraifft, nodwn fod y cyfuniad o gyfarfodydd bob pythefnos ac wythnosau gwarchodedig yn golygu y bydd gennym lawer llai o gyfarfodydd a llai o gyfanswm amser cyfarfod nag y byddai ein pwyllgor blaenorol wedi'i gael yn amserlen pwyllgor 1.5 cyfarfod bob pythefnos y Bumed Senedd cyn y pandemig. Yn yr un modd, er y bydd cyfanswm yr amser cyfarfod sydd ar gael inni yn debyg yn fras i'r amser a oedd ar gael i'r pwyllgor blaenorol o fewn amserlen y pandemig, gall symud i gyfarfodydd bob pythefnos gyfyngu ar hyblygrwydd ein rhaglen waith, ein gallu i ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg, a'r potensial i ddarparu ar gyfer argaeledd rhanddeiliaid heb amharu ar gyflymder ein gwaith na thrylwyredd ein gwaith o gasglu tystiolaeth a chraffu.

Cyfarfodydd drwy'r dydd

Mae mwyafrif aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynrychioli etholaethau neu ranbarthau yng ngogledd Cymru neu ganolbarth a gorllewin Cymru. Yn ein cyfarfod cyntaf, buom yn trafod rhai o'r materion ymarferol sy'n codi o ddyrannu slotiau cyfarfod drwy'r dydd, gan gynnwys materion posibl o ran blinder a llesiant sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd rhithwir neu hybrid hir, a'r amser teithio sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd hybrid neu gorfforol ar gyfer Aelodau sy'n cynrychioli etholaethau a rhanbarthau gryn bellter o Fae Caerdydd.

Er ein bod yn bwriadu bod yn hyblyg yn ein hamseroedd cyfarfod yn unol â gofynion busnes y Pwyllgor, nid ydym yn credu y bydd yn ymarferol cwrdd yn rheolaidd y tu hwnt i 15.00 ar brynhawn dydd Iau.

Potensial i ofyn am slotiau cyfarfod ffurfiol ychwanegol

Rydym yn croesawu'r awgrym bod y Pwyllgor Busnes yn bwriadu edrych yn ffafriol ar geisiadau gan bwyllgorau am slotiau cyfarfod ffurfiol ychwanegol i ddarparu ar gyfer cyfnodau prysur o ran llwythi gwaith neu dasgau newydd. Rydym o'r farn y byddai hyn yn briodol i ddarparu ar gyfer gwaith mewn perthynas â'r amserlenni neu waith cwblhau lle mae gan bwyllgorau ddisgresiwn cyfyngedig, er enghraifft gwrandawiadau cyn penodi neu atgyfeiriadau gan y Pwyllgor Busnes o Filiau neu Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol. Nodwn hefyd fod gennym hyblygrwydd, yn amodol ar argaeledd Aelodau ac adnoddau'r Comisiwn, i ymgymryd â gweithgarwch anffurfiol y tu allan i'r amserlen ffurfiol; er na fyddai'n briodol nac yn dryloyw i'r holl weithgarwch a fyddai fel arall yn digwydd mewn cyfarfodydd ffurfiol gael ei gynnal yn anffurfiol.

At hynny, nodwn fod cwmpas cyfyngedig yn yr amserlen wythnosol i drefnu gweithgarwch ychwanegol o'r fath ar gyfer y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiadau eraill yr Aelodau o ran pwyllgorau, y Comisiwn a'r Cyfarfod Llawn, a'r angen i sicrhau bod amser ar gael i baratoi ar gyfer busnes ffurfiol ac ar gyfer cyfrifoldebau pwysig eraill yr Aelodau. Er enghraifft, nodwn gyda phryder arbennig y cynnig y dylai dydd Gwener - sydd wedi'i gadw'n draddodiadol ar gyfer ymrwymiadau etholaethol a rhanbarthol yr Aelodau - ddod yn rhan o amserlen fusnes ffurfiol y Senedd fel mater o drefn i ddarparu ar gyfer gwaith craffu deddfwriaethol.

Rhannu slot cyfarfod gyda'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Rydym yn croesawu'r cyfleoedd posibl y mae rhannu slot cyfarfod â'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn eu darparu o ran gweithio ar y cyd ar feysydd sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr. Fodd bynnag, er y bydd y ddau bwyllgor yn ceisio osgoi, lle bo modd, gosod galwadau croes ar ein rhanddeiliaid a rennir, gall yr anhyblygrwydd cynyddol yn ein rhaglenni gwaith o ganlyniad i'r amserlen bob pythefnos wneud hyn yn fwy anodd.

Rydym yn rhagweld y gall y slot cyfarfod a rennir gael effaith arbennig ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'i dau Ddirprwy Weinidog, yn enwedig yn ystod cyfnodau prysur megis

y gwaith craffu blynyddol ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r Gweinidogion yn atebol i'r ddau bwyllgor, a byddwn yn disgwyl iddynt ystyried cyfyngiadau amserlen y pwyllgor, i fod yn hyblyg wrth dderbyn ceisiadau i roi tystiolaeth, a blaenoriaethu ceisiadau pwyllgorau dros weithgareddau eraill.

Er gwaethaf y materion a amlinellir uchod, rwy'n croesawu'r cadarnhad yn eich llythyr bod y Pwyllgor Busnes yn bwriadu cadw hyblygrwydd ac ymatebolrwydd wrth wraidd ei benderfyniadau ynghylch amserlennu pwyllgorau. Rwy'n gobeithio bod myfyrdodau aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol o gymorth yn hyn o beth.

Yn gywir

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.